

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Cofnodion Cyfarfod

Dydd Llun, 18 Medi 2023

Canolfan Hamdden Caerfyrddin. 6pm

Yn Bresennol: Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd
y Fforwm Mynediad Lleol
David Stacey (DS)
Richard Leggett (RL)
Phil Snaith (PS)
Sean Brown (SB)
Karen Burch (KB)
Jillie Gardner (JG)
Wyn Owen (WO)

Ysgrifennydd – Jason Lawday (JL) (ILS) – Swyddog Mynediad Cefn Gwlad CSC

Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Aelodau o'r Cyhoedd:

Hannah Wilcox Brooke (HWB) ac Angela Charlton (AC) – Cerddwyr Cymru
Nigel Nicholas (NN) – CNC (Llwybr Arfordir Cymru)

Ymddiheuriadau: Aelodau:

Dave Gravelle (DG)
Tara-Jane Sutcliffe (TJS)
Peter Griffiths (PG)
Mo Rapley (MO)

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:

Y Cynghorydd Edward Thomas (ET)
Neil Thomas (NT)
Phil Morgan (PM)
Y Cynghorydd Hazel Evans (HE)
Lisa Lloyd (LL)

Nodyn:

Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir
Caerfyrddin ac mae HTC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at
Hawliau Tramwy Cyhoeddus
Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru

EITEM	CAMAU GWEITHREDU
<u>Eitem 1 - CROESO AC YMDDIHEURIADAU</u> Croesawodd MH a JL y fforwm a chyflwynwyd HWB, AC a NN. Darllenodd MH / JL yr ymddiheuriadau a oedd wedi dod i law. Cytunodd MH / JL i newid trefn eitemau ar yr Agenda i ddarparu ar gyfer AC.	
<u>Eitem 2 CERDDWYR CYMRU – Llwybrau at Lesiant ac Arolwg Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin (eitem wedi'i symud ymlaen o Eitem 3).</u> Mynychodd HWB o bell a rhoddodd gyflwyniad ar brosiect Llwybrau at Lesiant a gwblhawyd yn ddiweddar, gan ganolbwyntio ar safle prosiect Sir Gaerfyrddin yn Llanybydder. Amlinellodd fanteision gwaith gwirfoddol lleol ac aeth ymlaen i amlinellu'r Arolwg Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus a gychwynwyd yn ddiweddar. Arweiniodd hyn at sesiwn holi ac ateb gyda HWB, AC ac aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol. Cyfrannodd JL gydag eglurhad ar rai pwyntiau, megis y ffaith na fyddai llwybrau blaenoriaeth (categori A a B yn Hierarchaeth y Rhwydwaith) yn cael eu cynnwys yn yr arolwg, gan fod y rhain eisoes yn cael eu harolygu a'u cynnal yn rheolaidd. Blaenoriaeth yr arolwg oedd cael gwybodaeth am gategoriâu is hawliau tramwy cyhoeddus, lle mae diffyg gwybodaeth. Eglurodd HWB eu bod yn bwriadu defnyddio dull seiliedig ar ardal gyda gwahanol grwpiau o wirfoddolwyr. Eglurodd JL, oherwydd maint y rhwydwaith, na fyddai'r arolwg yn cael ei gwblhau cyn diwedd y prosiect, ond mai'r gobaith oedd y byddai gwirfoddolwyr yn parhau i arolygu wrth symud ymlaen. Dywedodd HWB fod arolygu yn gyfle gwych i ymgysylltu â gwirfoddolwyr nad ydynt efallai'n gallu neu â diddordeb mewn gwneud gwaith ffisegol. Byddant yn defnyddio dull hyblyg, cynhwysol wedi'i anelu at bobl â gwahanol alluoedd a byddant hefyd yn canfod beth sydd ei angen ar gymunedau. JG – sut y bydd anghenion marchogion yn cael eu darparu ar eu cyfer yn yr arolygon? A fydd llwybrau y gallai marchogion eu defnyddio, ond a gofnodir ar hyn o bryd fel llwybrau troed yn cael eu nodi a'u hymchwilio? Atebodd JL y byddai proses gyflwyno y tiffeddiannwr / Gorchymyn Addasu Mapiau Diffiniol arferol yn berthnasol. Roedd JG yn pryderu bod arolygon wedi'u hanelu at anghenion lleol yn unig, ac y dylid safoni arolygon i gynnwys anghenion twristiaid, ymwelwyr, a busnesau cysylltiedig. Amlinellodd HWB ac AC y cyfyngiadau ar ddull presennol Cerddwyr Cymru, sy'n cael ei arwain gan y gymuned / o'r gwaelod allan, yn hytrach nag o'r brig i lawr. Amlinellodd JL ac AC gynlluniau ffurflenni arolwg, sef cyfuno a diweddarau ffurflenni presennol CSC a Cherddwyr Cymru, ynghyd â ffurflenni pont ar wahân ychwanegol. Awgrymodd RL ymgysylltu â Chynghorwyr. Cam Gweithredu – CSC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y prosiect ym mhob cyfarfod o'r Fforwm Mynediad Lleol. ILS i'w ychwanegu fel Cam Gweithredu / Eitem Agenda.	ILS

Eitem 3 LLWYBR ARFORDIR CYMRU (eitem 2 ar yr Agenda yn flaenorol)

Cyflwynodd NN gipolwg ar hanes Llwybr Arfordir Cymru a rhai o'r anawsterau wrth ei sefydlu. Esboniodd NN ei daith bersonol i'r rôl a rhai o'r heriau y mae wedi'u goresgyn. Mae adran Sir Gaerfyrddin yn anarferol oherwydd yr aberoedd mawr, sy'n darparu profiad cerdded gwahanol. Esboniodd NN y sefyllfa ariannu (Llwybr Arfordir Cymru wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru), a bod gweithgorau partneriaeth cenedlaethol a rhanbarthol (mae Sir Gaerfyrddin o fewn Grŵp Rheoli Rhanbarthol - Y Gorllewin). Cynhelir arolygon blynyddol, gyda gwybodaeth yn cael ei mewnbynnu yn y System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad (CAMS) Llwybr Arfordir Cymru drwy lechi. Mae swyddogion Llwybr Arfordir Cymru yn gweithio i'r safonau ansawdd ar gyfer llwybrau cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru. Mae gwelliannau mynediad yn cynnwys cael gwared ar sticlau - mae un ar ôl yn Sir Gaerfyrddin. Mae Cynlluniau Datblygu Rhanbarthol yn cael eu datblygu a dylent fod ar gael i'r Fforwm Mynediad Lleol yn y dyfodol. P.S. Diogelwch Ffyrdd – yn enwedig y rhan o Dre Ioan i Goed Castell Moel, sy'n beryglus iawn ac yn anaddas ar gyfer llwybr cenedlaethol. Cytunodd NN a nododd ei fod ar hyn o bryd yn edrych ar newid y llwybr, gyda gweledigaeth hirdymor i greu llwybr aml-ddefnyddiwr. Mae'r opsiynau'n cynnwys gosod troedffordd i gerddwyr ar ochr y ffordd (amcangyfrif cost o £1m), neu lwybr ar ochr arall ffiniau caeau / perthi.

Cynigiodd MH ddarparu nodyn cyngor gan y Fforwm Mynediad Lleol.

Awgrymodd RL y gallai fod yn seiliedig ar y Cynllun Datblygu Rhanbarthol. Bydd MH yn cynghori Carys Drew y bydd y Fforwm Mynediad Lleol yn cynhyrchu nodyn cyngor.

KB - yn wreiddiol bwriadwyd Llwybr Arfordir Cymru ar gyfer gwahanol ddosbarthiadau o ddefnyddwyr, gan gynnwys marchogion - pryd fydd hyn yn digwydd? Atebodd NN eu bod yn chwilio am gyfleoedd mynediad uwch - mae cyllid ar gael ond mae cael cytundeb yn anodd. Gofynnodd KB am ragor o wybodaeth am adrannau sy'n darparu ar gyfer marchogion ar hyn o bryd.

Holodd JG a yw adrannau sydd ar gael ar gyfer dosbarthiadau uwch o ddefnyddwyr yn cael eu hyrwyddo, cadarnhaodd NN nad ydyw.

Trafododd PS a NN faterion sy'n benodol i safle yn y Bynea, lle cynigir y bydd llwybr troed cyhoeddus yn cael ei ddargyfeirio i lwybr aml-ddefnyddiwr sydd newydd ei adeiladu.

Eitem 4 – DEFNYDD CNC O GWMNI DIOGELWCH PREIFAT

Esboniodd MH gefndir y mater - CNC yn defnyddio cwmni diogelwch preifat ar benwythnosau. Roedd digwyddiad lle cafodd defnyddwyr cyfreithlon eu hatal rhag defnyddio priffordd gyhoeddus (deliwyd â'r mater hwn gan CNC ac ni ddylai ddigwydd eto). Er bod CNC yn gweithio gyda'r heddlu ar rai materion, mae materion eraill, fel gwersylla gwyllt, yn faterion sifil a dim ond yn breifat y gellir delio â nhw. Holodd MH a oedd unrhyw un arall yn ymwybodol o unrhyw faterion eraill.

Dywedodd KB y byddai'n dda gwybod ble roedd hyn yn digwydd, pam a faint yr oedd yn ei gostio.

Dywedodd JG fod lefelau staffio isel wedi arwain at CNC yn is-gontractio rhai rolau.

Eitem 5 - STRATEGAETH HAMDDEN AWYR AGORED CNC

Rhoddodd MH gyflwyniad cyffredinol i'r dogfennau a oedd wedi'u dosbarthu i'r Fforwm Mynediad Lleol yn flaenorol. Ymgynghoriad nid ar gyfer y cyhoedd,

rhanddeiliaid allweddol yn unig, ac nid yw ar gael ar wefan CNC. Gan ei fod yn ymdrin â dewis eang o bynciau, efallai na fydd yn bosibl darparu un ymateb gan y Fforwm Mynediad Lleol, felly awgrymodd MH fod aelodau unigol o'r Fforwm Mynediad Lleol yn darparu eu hymatebion eu hunain, gan ganolbwyntio ar anghenion y grwpiau y maent yn eu cynrychioli o fewn y Fforwm Mynediad Lleol. Teimlai PS y dylai'r ymgynghoriad fod ar gael yn eang. Gofynnodd KB a ymgynghorwyd â grwpiau defnyddwyr sy'n cynnal digwyddiadau ar safleoedd CNC. Bydd MH yn holi pwy yw'r rhanddeiliaid.	MH
<u>Eitem 6 – DIWEDDARIAD YNGHYLCH PROSIECTAU</u> Darllenodd JL e-bost yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf gan Alan Warner (AW). Holodd MH beth oedd y '10 prosiect' a nodwyd yn flaenorol. Cam Gweithredu – ILS i ddod o hyd i wybodaeth am y 10 prosiect. Cam Gweithredu - MH hefyd i holi yng nghyfarfod nesaf Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd.	ILS MH
<u>Eitem 7 – ADRODDIADAU AR FATERION</u> Gwerthfawrogodd RL adborth cadarnhaol ar ôl y cyfarfod diwethaf. Amlinellwyd diffyg a phroblemau cyfredol / hanesyddol fel tan-arolygu a than-gofnodi hanesyddol, ynghyd â diffyg adnoddau i fynd i'r afael ag ôl-groniad o faterion. Mae'r adroddiadau ar faterion wedi cael eu mapio dros saith mlynedd ac awgrymwyd y dylid eu cyflwyno i'r Pennaeth Gwasanaeth newydd. Mae'r ystadegau'n dangos materion a gofnodir o fewn a thu allan i'r flwyddyn ariannol, a gellir eu dadansoddi drwy CAMS i gynhyrchu gwybodaeth wahanol, yn ôl yr angen. Cynigiodd RL weithio gyda darparwr CAMS i fireinio ystadegau ymhellach / cynhyrchu ystadegau gwahanol. Holodd KB a yw'r adroddiadau ar faterion yn y parth cyhoeddus. Cam Gweithredu – egluro statws parth cyhoeddus. Cam Gweithredu – gweithio gyda Thîm Mynediad i Gefn Gwlad i ymchwilio i opsiynau pellach ar gyfer gweithio cydweithredol.	JL RL
<u>Eitem 8 – CAMAU GWEITHREDU SY'N CODI O GOFNODION Y CYFARFOD</u> <u>DIWETHAF</u> Gofynnodd MH bod Cofnodion hefyd yn cael eu dosbarthu mewn fformat pdf, oherwydd materion TG ar gyfer rhai aelodau. Sylwadau y dylai Cofnodion barhau i gael eu dosbarthu ar ffurf WORD, gan ei bod yn haws gwneud newidiadau. Cam Gweithredu – darparu Cofnodion yn y ddau fformat wrth symud ymlaen. ynghylch: Cais i'r Cynghorydd Thomas Nododd MH fod y Fforwm Mynediad Lleol yn siomedig iawn gyda'r diffyg ymateb. Awgrymodd RL gysylltu â'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor, awgrymodd MH aros tan ar ôl i'r Fforwm Mynediad Lleol gyfarfod â'r Pennaeth Gwasanaeth newydd.	ILS

Cam Gweithredu – cael y wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn.	ILS
ynghylch: Cynllun Gwella Hawliau Tramwy - gofynnodd MH am ddiweddariad ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer y cyfarfod nesaf.	ILS
ynghylch: Gweithdrefnau Coedwigaeth CNC - Mae JL wedi gwella'r berthynas waith gyda CNC, yn ogystal â chwmnïau coedwigaeth preifat.	
ynghylch: Ymgynghoriad Diwygio Mynediad CNC - Dim gwybodaeth newydd, i'w drafod yn y Fforwm Mynediad Lleol Cenedlaethol arfaethedig (ILS i fynychu).	ILS
Cam Gweithredu – Cael y wybodaeth ddiweddaraf.	
ynghylch: Strategaeth Farchogaeth – JL dim diweddariad pellach. Cynigiodd KB ddarparu papur cyngor y gellid cyfeirio ato ar gyfer ailddrafftio'r Strategaeth Farchogaeth sydd ar ddod. Gofynnodd KB am grynoded o ganlyniadau'r arolwg a gynhaliwyd fel rhan o'r broses ddrafftio gychwynnol o'r Strategaeth Farchogaeth.	
Cam Gweithredu – Cael y wybodaeth ddiweddaraf a chrynodeb o'r arolwg.	ILS
ynghylch: Ymgynghoriad ynghylch Cau Croesfan ar yr A48 – JL dim diweddariad pellach.	ILS
Cam Gweithredu – Cael y wybodaeth ddiweddaraf.	
ynghylch: Ymweliad Archifau – Amlinellodd KB opsiynau ar gyfer ymweliad. Awgrymodd MH gytuno ar ddyddiad ac anfon allan gwahoddiadau.	
Cam Gweithredu – Cael dyddiad a threfnu ymweliad.	KB
Hawliau Tramwy Cyhoeddus / Mynediad i Farchnata – Rhoddodd MH ddiweddariad cyffredinol a dywedodd y cafwyd ystadegau cadarnhaol sylweddol o ran y cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd KB fod codau QR yn ddefnyddiol iawn. Dywedodd MH fod diffyg allwedd ar y mapiau papur yn siomedig iawn ac yn gwneud y mapiau yn llai defnyddiol. Awgrymodd KB y gellid gwahodd rhywun o'r Tîm Twristiaeth a Marchnata i fynychu'r Fforwm Mynediad Lleol yn y dyfodol.	
Cynigion Marchogaeth Ceffylau ym Mharciau CSC Roedd KB yn siomedig gyda'r sefyllfa bresennol ym Mynydd Mawr, lle gellir dim ond marchogaeth yn y dolydd. Dim ond dau ddigwyddiad sydd wedi bod, ond mae'r rhain wedi arwain at gyfyngiadau. Ar wahân i'r ddau ddigwyddiad, mae marchogaeth wedi bod yn cael ei blismona'n dda gan y marchogion eu hunain. Mae materion wedi cael eu codi ar y cyfryngau cymdeithasol.	
Beicio ar Lwybrau Troed Mae PS wedi cysylltu â Sustrans, sydd heb eto weld y newidiadau arfaethedig i Orchmynion Hawliau Tramwy Cyhoeddus / Addasu Llwybr Beicio.	
<u>EITEM 9 – UNRHYW FUSNES CYMWYS ARALL</u>	
GRŴP DEFNYDDWYR CILFFYRDD MH - bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, y 26^{ain} am 2pm ym Mharc Myrddin. Bellach, mae gan MH y Cylch Gorchwyl.	

Fforwm Mynediad Lleol Cenedlaethol – ar y 4^{ydd} o Hydref ar Faes y Sioe Frenhinol. JL / ILS i fynychu. Cais Gwaith Glo Brig Gilfach Wen/Heol Shands PS - mae hyn wedi cael ei wrthod. Amlinellodd PS y safle a'r hanes, opsiynau ar gyfer gwella cynefinoedd ar ochr ddwyreiniol a gorllewinol y safle, yn ogystal â mynediad cyhoeddus ar hyd hen ffordd y lofa. <u>EITEM 10 – DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</u> Cyfarfod Nesaf - Dydd Llun, 11 Rhagfyr, Canolfan Tywi, Llandeilo	
--	--